Hydref 2018

Cafodd y Gymdeithas wythnos lwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd ddiwedd Mai. 'Oes y Tywysogion' oedd canolbwynt ein harddangosfa, a bu Liz Evans (aelod o'n pwyllgor) yn adrodd storïau yn cysylltu y rhan hon o'n hanes â'r Mabinogi.

Eisteddfod yr Urdd

Cafodd aelodau o bwyllgor y Gymdeithas gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm ac Arfarnu Llywodraeth Cymru fis Awst. Bydd ein hysgolion yn brysur yn datblygu cwricwlwm hanes newydd dros y misoedd nesaf, a byddwn fel Cymdeithas yn gwneud ein gorau i sicrhau fod hanes Glyndŵr yn cael sylw dyledus yn y cwricwlwm newydd. Os medrwch helpu mewn unrhyw ffordd byddwn yn ddiolchgar iawn am unrhyw gymorth.

Byddwn yn dathlu Dydd Glyndŵr yn fuan ac mae amrywiaeth o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ar benwythnos Medi 14 - 16. Bydd gwibdaith y Gymdeithas i Bennal a Machynlleth ar ddydd Sadwrn Medi 15 a bydd ein CCB yn rhan o'r trefniadau. Ceir darlith gan Dr Elin Jones yn y prynhawn.

Bydd Dewi Prysor yn cyflwyno Darlith Goffa R. R. Davies yng Ngwesty Owain Glyndŵr yng Nghorwen ar y dydd Gwener, a bydd gwasanaeth yn Eglwys Corwen (a gorymdaith i ddilyn) yng Nghorwen ar Ddydd Glyndŵr.

Cewch ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau Glyndŵraidd ar wefan y Gymdeithas a *Facebook* - a pheidiwch anghofio chwifio baner Glyndŵr i ddathlu'r achlysur!